

# ADRODDIAD EFFAITH BLYNYDDOL 2016/17

*Cefnogi Hyrwyddo a  
Datblygu Gweithgareddau  
Gwirfoddol a Chymunedol*



Cefnogi Trydydd  
Sector **Cymru**  
Third Sector  
Support **Wales**

**FLVC**  
Flintshire Local Voluntary Council  
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint



Ymddiriedolwyr FLVC Clive Bracewell, Barbara Roberts, Michael Dixon a Marjorie Thomson yn derbyn Gwobr Cyflogwr Enghreifftiol Chwarae Teg mewn cydnabyddiaeth o'n hymrwymiad at arferion amrywiol a chynhwysol yn y gweithle

# CYNNWYS

Ein Staff a'n Hymddiriedolwyr	3
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint	4
Adroddiad y Cadeirydd	5
Adroddiad y Prif Weithredwr	6
Gwirfoddoli	7-8
Llywodraethu Da	9
Cyllid Cynaliadwy	10
Cymryd Rhan a Dylanwadu	11-12
Cyfrifon FLVC 2016/17	14

# YR YMDDIRIEDOLWYR *Er mis Ebrill 2016*

Marjorie Thomson - Gadeirydd  
Wendy Carter  
Clive Bracewell  
Barbara Roberts  
John Hatton  
Jane Styles  
Amanda Morgan

Paul Hinchliffe - Is-Gadeirydd  
Michael Dixon  
Liz Holland  
Pip Perry MBE  
Ole Constantine  
Tim Byram  
Angela Garbett

## Y STAFF *Er mis Ebrill 2016*

Ann Woods  
Chris Ablett  
Chris Roberts  
Emma Gough  
Fran Hughes  
Jill Blandford  
Jane Hewson  
John Gray  
June Brady  
Karen Peters  
Kate Howard  
Kim Sheridan  
Matt Weedall  
Pam Bebbington  
Rachael Partington  
Shaun Darlington  
Sheila Bacon

Prif Weithredwr  
Swyddog GwirVol  
Rheolwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli  
Swyddog Datblygu Iechyd a Llesiant  
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli (Step Up Step Out)  
Gweinyddwr Cyfathrebu  
Swyddog Gwybodaeth a Chyngor  
Swyddog Ariannu Gwaith Allanol  
Gweinyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Sicrhau Ansawdd  
Cydlynnydd Trydydd Sector (SPoA)  
Swyddog Presgripsiwn Cymdeithasol  
Swyddog Datblygu Gwirfoddoli (Resilience)  
Swyddog Cefnogi'r Gorlan  
Gweinyddwr y Ganolfan Wirfoddoli  
Rheolwr Busnes a Chyllid  
Cynorthwydd Cyllid

## PRINTROOM *Er mis Ebrill 2016*

Irene Langford  
Rachael Partington  
Barrie Potter

Swyddog Datblygu Prosiect  
Ysgrifennydd Gweinyddol Prosiect  
Ymgynghorydd Technegol

Claire Doughty

Wedi'i gynllunio gan Double Click Design & Print CIC



Gwobr yr Uwch Siryf 2017

# CYNGOR GWIRFODDOL LLEOL SIR Y FFLINT -

## *Yn Ran o Cefnogi Trydydd Sector Cymru*

### Cefndir...

**Cefnogi Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)** yw'r corff ymbarel annibynnol sy'n rhoi cymorth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint. Mae'n un o 19 Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Nghymru a cafodd ei sefydlu ym 1997. Mae FLVC yn elusen gofrestrdig (1062644) ac yn gwmni cyfyngedig (3301204). Mae ganddo hyd at 15 o ymddiriedolwyr gyfarwyddwyr sy'n dod yn bennaf o'r sector wirfoddol leol ynghyd a 18 o staff rhan amser a llawn amser. Ers 2008 mae FLVC wedi ei leoli yn CORLAN ym Mharc Busnes Yr Wyddgrug.

Mae gan **FLVC** dros 1200 o gytundebau gwirfoddol a chymunedol yn ei fasdata gyda dros 300 yn ei aelodaeth. Mae FLVC yn derbyn nawdd o nifer o ffynonellau gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir y Fflint, Teuluoedd yn Gyntaf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae FLVC hefyd yn derbyn incwm o logi swyddfeydd yn CORLAN a thrwy ei Brosiect Argraffu Cymunedol, the Printroom.

**Rydym yn rhan o rwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru.** Rydym yn rhannu'r nod o alluogi'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ar draws Cymru i gyfrannu'n llawn at les unigol a chymunedol, rŵan ac ar gyfer y dyfodol.

Mae **Cefnogi Trydydd Sector Cymru** yn rhwydwaith o gyrff sy'n cefnogi trydydd sector Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae'n cynnwys 19 corff cefnogol lleol a rhanbarthol ar draws Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CVCau) ynghyd a chorff cefnogol cenedlaethol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Rydym yn gweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau trydydd sector i adnabod ac ymateb i'r hyn sydd o bwys iddyn nhw. I gyrraedd ein nod rydym yn cydweithio a phartneriaid allweddol eraill ar draws y drydydd sector, y sector gyhoeddus, busnes, ymchwil a noddwyr.

**Mae gennym bedwar gweithgaredd benodol sy'n ffurfio ein cynnig cyffredinol, y rhain yw:**

- Gwirfoddoli
- Llywodraethu da
- Nawdd cynaliadwy
- Ymrwymiad a dylanwadu

**Mae ein gwaith wedi ei ganoli'n fras ar y themâu cyffredin o:**

- Wybodaeth a chyngor
- Ddysgu a datblygiad
- Rwyngweithio a chyfathrebu
- Siapio, dylanwadu ac adeiladu'r cyfalaf cymdeithasol a gwytnwch y sector
- Godi proffil y sector



# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**Bu 2017 yn flwyddyn llawn dathlu i FLVC wrth inni ddathlu 20 mlynedd o wasanaeth; ers inni sefydlu ar ddechrau 1997 gydag 1 gweinyddwr. Ym mis Mawrth bu inni ennill gwobr drwy Chwarae Teg ac ym mis Mai bu inni dderbyn gwobr Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn gorffwys ar ein bri felly rydym yn ymdrechu i ennill statws PQASSO yn 2018.**

Cenhadaeth FLVC ydy cefnogi, datblygu a hyrwyddo gwaith gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint. Hefyd rydym yn mynd ati i gryfhau gallu grwpiau gwirfoddol a chymunedol i fedru gwella ansawdd bywyd trigolion a chymunedau Sir y Fflint.

Bydd FLVC yn gwireddu eu cenhadaeth drwy gydweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol eraill (CVC'S) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar drefniant gweithio ar y cyd wedi ei adolygu. Yr enw cyfunol newydd ydy Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru (TSSW). Gyda'n gilydd rydym wrthi'n datblygu fframwaith mesur effaith yn ymwneud â phedwar maes:

- Trefn Lywodraethol Da
- Dylanwad Effeithiol a Chydweithio Strategol
- Gwirfoddoli
- Cyllid Cynaliadwy

Rydym yn disgwyl y bydd yr holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol wedi ennill statws PQASSO erbyn 2018. Mae PQASSO yn system sicrwydd ansawdd ymarferol ar gyfer mudiadau Trydydd Sector. Bu i staff ac ymddiriedolwyr FLVC dderbyn hyfforddiant ynghylch y system PQASSO. Yn dilyn yr hyfforddiant bu i dimau staff, mewn gweithgaredd tebyg i "dragon's den" gynnig i ymddiriedolwyr ymuno â'u tîm fel partneriaid / ffrindiau beirniadol. Rydym wrthi'n casglu tystiolaeth ac yn gobeithio medru ceisio i dderbyn asesiad yn ystod Gwanwyn 2018. Mae'r broses yn gwella cyfathrebu yn y mudiadau rhwng staff ac ymddiriedolwyr.

Bu i FLVC gydweithio gyda Chwarae Teg / Cenedl Hyblyg 2. Mae'r mudiad yn helpu hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a meithrin diwylliant sy'n croesawu amrywioldeb. Ym mis Mawrth 2017, bu i Chwarae Teg ddweud fod FLVC yn gymwys i dderbyn Gwobr Cyflogwr Delfrydol yn sgil canlyniadau arbennig yn ein harolwg staff ynghylch gweithio a rheoli hyblyg.

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr(liv) ydy safon ansawdd Prydain ar gyfer ymarfer da mewn Rheoli Gwirfoddolwyr. Yn dilyn gwiriad iechyd cychwynnol, bu i dîm y Ganolfan Wirfoddoli ymdrechu i roi'r gofynion ar waith. Yn sgil asesiad ym mis Mawrth bu inni dderbyn Safon Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr ym mis Mai. Mae'n bwysig ein bod ni, fel mudiad, yn medru dangos ymarfer da wrth ymdrin â gwaith Gwirfoddoli.

Bu i Gynllunio Strategol Ymddiriedolwyr FLVC adnabod angen i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd y Bwrdd. Yn dilyn hyn, bu i aelodau'r Bwrdd gwblhau holiadur Hunan-Asesiad. Bu i hyn arwain at fwy o waith ynghylch dadansoddi Sgiliau. Fel Bwrdd rydym yn croesawu amrywioldeb a gan fod gennym ni lefydd gwag ar y Bwrdd rydym yn gobeithio y bydd aelodau sy'n meddu ar ystod eang o sgiliau yn ymuno gyda ni i ofalu ein bod yn fwy effeithiol yn y byd heriol sydd ohoni heddiw.

Yn ddiweddar bu inni ddiweddarau ein system rheoli RISK gan gynnwys diweddarau amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau ac ymarferion sy'n cydweithio er mwyn adnabod, dadansoddi, mynd i'r afael â a monitro risg. Ymysg y penawdau oedd asedau, cyllid, ariannwyr, trefn llywodraethu, gwleidyddiaeth a deddfwriaeth. Er na allwn ni osgoi pob risg gall y mudiad eu hwynebu, mae'n bwysig ein bod ni yn eu hystyried ac yn gweithredu fel sy'n briodol.

Pob blwyddyn ym mis Mehefin, mae FLVC yn trefnu digwyddiad dathlu i ddiolch i Wirfoddolwyr ledled Sir y Fflint am eu cyfraniad at wirfoddoli. Eleni, bu VolfFest yn ddigwyddiad poblogaidd gyda chyfle i fanteisio ar weithdai rhyngweithiol ar gerddoriaeth, theatr, ffilm a symudiad. Cafodd tystysgrifau eu cyflwyno yno ac roedd côr a band yno hefyd. Roedd teimlad o "foddhad" a oedd yn crynhoi'r oll sy'n fuddiol am wirfoddoli.

Hoffwn ddiolch ichi am gymryd diddordeb yn FLVC. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda chi, ac er eich lles chi, rwan ac yn y dyfodol.

*Marjorie Thomson  
Cadeirydd FLVC*

Cofion Gorau  
Marjorie Thomson FLVC



# ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn rhwydwaith o gefnogwyr ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Rydym yn rhannu'r nod o alluogi'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ar draws Cymru i gymryd rhan lawn yn lles unigolion a'r gymuned, rŵan ac yn y dyfodol.



Prif Swyddog FLVC - Ann Woods

**Croeso i Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Y corff Cefnogi Trydydd Sector Cenedlaethol, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a pob Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVCau) wedi bod yn gweithio ar ddull mwy cydweithiol o gefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Fel y CVC ar gyfer Sir y Fflint rydym yn edrych ymlaen at weithio yn agosach gyda'n cydweithwyr lleol/rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau fod ein gwasanaethau yn delio a'ch anghenion mor effeithiol â phosib.**

Mae pedwar edefyn i'n Gwaith wrth i ni fynd yn ein blaenau –

- Gwirfoddoli
- Llywodraethu Da
- Nawdd Cynaliadwy
- Ymrwymiad a Dylanwad

Yn yr adroddiad blynyddol hwn byddwch yn gweld rhai o'n cyflawniadau oddi mewn i'r edeifion hyn dros y flwyddyn 2016/17.

Yn Rhanbarthol rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gynnal peilot o fodel rhagnodi cymdeithasol, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda phob Cyngor Gwirfoddol Sirol arall yng Ngogledd Cymru i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer profi gwerth cymdeithasol a rhoi cymorth i ddylanwadu ar gomisiynwyr i nodi buddion ehangach Gwasanaethau Cefnogi Trydydd Sector.

Mae Asesiad Lles Gogledd Cymru wedi rhoi rhywbeth i feddwl amdano ynglŷn ag anghenion y boblogaeth, ac mae amcanion lles yn cael eu creu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus mewn ymateb i'r asesiad. Ein gwaith ni yw sicrhau fod y trydydd sector yn cymryd rhan ym mhob lefel o gynllunio a darparu gwasanaeth.

Rydym wedi cynnal peilot ac wedi darparu Hyfforddiant Cyffredinol Achrededig ar gyfer gwirfoddolwyr sydd yn gweithio i gyrrff trydydd sector eraill, gyda llawer o lwyddiant, ac mae gennym amcanion ar gyfer darparu mwy o gefnogaeth yn y maes hwn yn 2018. Mae ein Rhaglen Gwirfoddoli Gefnogol yn parhau i ffynnu gan ddarparu cefnogaeth angenrheidiol i wirfoddolwyr posib sydd angen help llaw. Mae ein cefnogaeth o'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol o fewn Sir y Fflint wedi parhau yn 2016/17 gan ddarparu cefnogaeth annibynnol i grwpiau gwirfoddol sydd â diddordeb mewn rhedeg gwasanaethau yn eu hardal leol. Mae

Cyngor Nawdd a chymorth gyda Llywodraethu yn parhau i fod yn nodweddion allweddol o'r gefnogaeth sydd ei angen ar Grwpiau Trydydd Sector.

Roedd ein Cynhadledd Trydydd Sector eleni yn canolbwyntio ar Gyd-ddarparu. Mae gennym oll ddyletswydd i sicrhau fod pob gwasanaeth rydym yn ei ddarparu wedi ei deilwra i, ac wedi ei yrru gan anghenion ein defnyddwyr. Un o ganolbwyntiau allweddol y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yw gwytnwch cymunedol. Mae unrhyw un sydd yn rhoi o'u hamser am ddim i helpu eraill yn helpu i gyrraedd yr amcan hwn -yn reddfodol ac yn allgarol. Mae gwir werth gwirfoddoli a gweithgaredd trydydd sector yn gwella gwytnwch ac ansawdd byw yn cael ei danbriso yn fawr. Bydd ein gwaith gyda Gwerth Cymdeithasol Cymru yn ein helpu i nodi yn well dylanwad Gweithgarwch Gwirfoddol a Chymdeithasol yn cynyddu gwytnwch o fewn ein cymunedau.

Roedd arolwg rhanddeiliaid FLVC yn 2016 yn dangos fod 80% o'r rhai wnaeth ymateb yn teimlo bod FLVC yn darparu gwasanaethau cefnogi o ansawdd uchel i unigolion a grwpiau trydydd sector. Roedd 70% o'r rhai wnaeth ymateb yn deall roliau unigol CVC a'r corff cenedlaethol ond roedd 12% o'r rhai wnaeth ymateb yn teimlo nad ydym yn mynegi ein amcanion a'n cyflawniadau yn effeithiol i'n partneriaid. Rydym ar hyn o bryd yn ailedrych ar ein cynllun cyfathrebu er mwyn gwella hyn ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio yn agosach gyda WCVA a'n partneriaid er mwyn darparu dulliau mwy cysylltiedig i faterion allweddol.

Wrth i ni gyrraedd ein 21ain flwyddyn ein blaenoriaeth yw safon y gwasanaeth. Mewn cydweithrediad a WCVA byddwn yn datblygu arfau monitro ac adolygu mwy trylwyr ar gyfer ein gwaith a thrwy ein prosesau sicrwydd ansawdd gwell bydd gennym strwythur gwell ar gyfer darparu ein gwasanaethau. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau sy'n cyflenwi ac yn cefnogi gwaith cyrrff trydydd sector ac rydym wedi allyrru rhai agweddau o'n gwaith nad oeddem yn teimlo eu bod yn cyd-fynd a gwaith corff ymbarél. Diolch yn fawr am roi o'ch amser i ddysgu mwy am FLVC. Gadewch i ni wybod sut y gallwn eich helpu orau yn eich gwaith angenrheidiol o ddydd i ddydd.

Prif Swyddog FLVC - Ann Woods  
01352 744028  
ann.woods@flvc.org.uk



# GWIRFODDOLI

- **Rhwydweithiau a Chyfathrebu**

Rydym yn gweithio fel cwndid i rannu gwybodaeth, deallusrwydd ac ymarfer da er mwyn cefnogi gwella parhaus mewn gwaith gwirfoddoli.

- **Recriwtio Gwirfoddolwyr a Chynnig Lleoliadau Gwaith iddyn nhw**

Rydym yn hwyluso, datblygu, a hyrwydd cyfleoedd gwirfoddoli o safon sy'n hawdd manteisio arny'n nhw ac yn dod o hyd i waith addas ar gyfer y gwirfoddolwyr.

- **Rheoli Gwirfoddoli**

Rydym yn cefnogi mudiadau er mwyn cynnig y buddion cyffredin gorau posib yn sgil gwirfoddoli.

- **Grantiau**

Bu inni gynnig cefnogaeth i ddatblygu'r modd i fedru recriwtio a chefnogi cronfa gynaliadwy o wirfoddolwyr.

- **Cydnabod a gwobrwyo**

Rydym yn helpu codi proffil llwyddiannau gwirfoddolwyr unigol a'u cyfraniad ar y cyd tuag at les a chydlynid Cymru.



## Ein Llwyddiannau?

- ✓ Bu inni ymateb i 533 ymholiad ynghylch gwirfoddoli
- ✓ Bu inni gynnal 151 cyfweiliad gwirfoddoli un-i-un
- ✓ Bu i 201 gwirfoddolwr fanteisio ar waith gwirfoddol ar ôl cysylltu gyda FLVC
- ✓ Bu i 163 unigolyn fynd i'n digwyddiad Dathlu Gwaith Gwirfoddolwyr Voffest yn 2016.
- ✓ Bu 2 Fforum Rhwydweithio Trefnwyr Gwirfoddoli yn ystod y flwyddyn lle bu cyfanswm o 38 yn cymryd rhan.
- ✓ Bu i ein prosiectau Gwirfoddoli gyda chefnogaeth helpu 85 unigolyn (gydag anghenion cefnogi ychwanegol) i fanteisio ar Gymwysterau achrededig a sesiynau blasu gwirfoddoli ledled Sir y Fflint.





## Ein Gwaith

*Cyflwyniad Cyffredinol i Wirfoddolwyr*  
Eleni bu inni ddatblygu Cwrs Cyflwyno i Wirfoddolwyr a oedd yn gwrs prawf cyffredinol achrededig. Roedd y cwrs yn arbennig i wirfoddolwyr cysylltiedig â Grwpiau'r Trydydd Sector ac roedd yn boblogaidd ymysg mudiadau yn gweithio ar draws Sir y Fflint. Ymysg y sesiynau roedd Gwaith a Chyfrifoldebau Gwirfoddolwyr, Iechyd a Diogelwch, Cyfrinachedd, Diogelu a Pholisïau a Gweithdrefnau. Mae'r cwrs wedi ei deilwra ar gyfer swyddi gwirfoddoli o fewn y mudiadau hynny sy'n bresennol ymhob cwrs.

*Ymateb cyffredinol i'r cyrsiau:*  
Andderchog = 28% Da iawn = 68% Da = 4%  
Ddim yn dda = 0% Gwael = 0%

*'Twtor cyfeillgar, hawddgar a gwybodus' 'Arbennig'*  
*Mae ein mudiad wrthi'n datblygu a bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol wrth inni fynd ati i ffurio ein polisiau a gweithdrefnau ein hunain'*  
*Roedd gen i ddisgwyliadau uchel.*  
*Bu i'r cwrs ragori ar fy nisgwyliadau'*

### • Step Up Step Out

Drwy ein Prosiect Gwirfoddoli gyda Chefnogaeth wedi ei gynnal ar y cyd â Mind Gogledd Ddwyrain Cymru, bu inni gynnig sesiynau blasu ar wirfoddoli / lleoliadau gwaith i unigolion yn dioddef trafferthion iechyd meddwl a/neu drafferthion gyda chamdefnyddio sylweddau. Roedden nhw'n sesiynau achrededig a oedd yn gyfle i'r unigolion ennill cymwysterau.

*'Bu i wirfoddoli fy helpu i ddiac o'r bedair wal unig o fy nghwmpas drwy ddrws mawr llydan agored. Bu i'r drws fy arwain at ffrindiau newydd, profiadau newydd, sgiliau newydd a mwy o hyder.'*

Bu i 100% o'r unigolion ar ein cwrs diwethaf ddweud y bu'r gefnogaeth yn help i roi hwb i'w hyder a bu i dros 90% ddweud y bu i'r cwrs eu helpu i feddwl yn fwy cadarnhaol am y dyfodol.

### • Stepping Up to Volunteering

Bu inni gynnig Prosiect prawf ar Wirfoddoli ar gyfer unigolion gydag Anawsterau Dysgu ar y cyd â Chymdeithas Awstiaeth Cenedlaethol Cymru.

*Mae'r broses cyfeirio yn syml ac roedd y staff yn hynod gefnogol. Bu i'r dyn ifanc y bu imi ei gyfeirio gyflawni llawer*

*iawn yn sgil y profiad. Bu inni fel gwasanaeth i bobl gydag Anableddau Dysgu drafferthu i ddod o hyd i rywbeth yr oedd yn frwdfrydig i gymryd rhan ohono a bod yn berchen arno.'*

- Dysgu Cymunedol
- Bu i 90% ddweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a bod eu lles wedi gwella i fedru cydweithio mwy gyda'r gymuned yn y dyfodol.
- Bu i dros 85% o unigolion oedd yn cymryd rhan ddweud y bu cynnydd yn eu sgiliau yn ymwneud â gwaith.

### • Resilience

Yn 2016/17 bu ein partneriaeth ar y cyd â Gwasanaethau Ieuencid Sir y Fflint gefnogi 91 person ifanc i wella eu sgiliau ymdopi a rhoi hwb i'w hyder a bu i 29 o'r bobl ifanc hynny fynd ati i wirfoddoli yn eu cymunedau.

### • Prosiectau Gwirfoddoli FLVC

Roedd FLVC wrth eu bodd o fedru bodloni Safon Ansawdd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn ystod Gwanwyn 2017. Mae gennym ni nifer o swyddi gwirfoddoli yn ein mudiad (fel gwaith gweinyddol a gwaith ar ran ein Prosiectau Gwirfoddoli gyda Chefnogaeth)

### • Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IIV)

Ydy'r safon ledled Prydain ar gyfer mudiadau sy'n ymwneud gyda gwirfoddolwyr. Diben Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr ydy gwella ansawdd profiad gwirfoddoli i wirfoddolwyr ac annog mudiadau i gydnabod cyfraniad sylweddol gwirfoddolwyr yn well. Caiff Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr ei reoli yng Nghymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Cafodd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint eu hasesu o ran ystod o safonau ymarfer gorau a bu iddyn nhw ddangos eu bod yn gymwys o ran yr holl agweddau o gydweithio gyda'u gwirfoddolwyr eu hunain.

*Dywedodd Emma Gough, Swyddog Datblygu Gwirfoddoli FLVC...*

*"Bu i broses Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr gynnig fframwaith inni fedru burw golwg ar ein perfformiad ynghylch recriwtio, hyfforddi a chefnogi ein gweithlu o wirfoddolwyr, ynghyd a datblygu Cynllun Gweithredu er mwyn cynnal ymarfer da yn y maes hanfodol yma o waith".*

# LLYWODRAETHU DA

## • Gwybodaeth a Chyngor

Rydym yn darparu gwybodaeth hygrych, cyngor ac offer er mwyn gweithredu llywodraethu da ac i alluogi gwelliant cyson.

## • Dysgu a Datblygiad

Rydym yn darparu cymorth ymarferol fel bod ymddiriedolwyr a staff cyflogedig yn gallu gweithredu yn gyfreithlon ac yn effeithiol.

## • Sicrwydd Safonau

Rydym yn rhoi cymorth i gyrff adnabod safonau ansawdd perthnasol a gweithio tuag at eu cyrraedd.

## • Codi Proffil y Sector

Rydym yn rhoi cymorth i godi proffil gwerth y sector a'r cyfraniad mae'n ei wneud i gymdeithas Cymru.



Staff sy'n gweithio yn y GORLAN

## Beth Wnaethom Ei Gyflawni?

- ✓ Fe wnaethom ymateb i dros 5,500 o ymholiadau.
- ✓ Cafodd ein Gwefan dros 56,000 o ymweliadau.
- ✓ Rhoddwyd ymateb i 400 ymholiad ymddiriedolwyr.
- ✓ Mynychodd bron i 300 o unigolion ein Cyrsiau Hyfforddiant.
- ✓ Fe wnaeth ein Rhaglen Meddyg Trydydd Sector gefnogi bron i 70 o gyrff (dros 600 o unigolion) gyda chefnogaeth wrth fesur Llywodraethu Trydydd Sector.
- ✓ Rydym wedi datblygu Rhaglen Rheoli Wirfoddol i gyd-fynd â'r Cwrs Mynediad Gwirfoddol Cyffredinol.

## Ein Dylanwad?

*Yn ein arolwg Rhanddeiliaid yn 2016, roedd 81% o atebwyr yn teimlo ein bod yn darparu gwasanaethau cefnogi o safon uchel.*

*Mae ein staff yn cydweithio a WCVA fel rhan o'r rhwydwaith 'Llysgenhadon Diogelu' i ddatblygu ymarfer Diogelu da.*

*Yn 2016/17 derbyniodd FLVC Safon Ansawdd Investing in Volunteers a Status Cyflogwr Delfrydol Chwarae Teg, gan adlewyrchu ein dull i sicrhau llywodraethu da oddi meun i'n corff wrth i ni gefnogi cyrff eraill gyda'u polisiau a'u dulliau gweithredu.*

*Rydym wedi cefnogi cyflwyno status Marc Ansawdd PQASSO ar gyfer pob Cyngor Gwirfoddol Sirol.*

*Rydym wedi darparu Arweiniad a/neu gefnogaeth Cynllun Busnes 35 corff wnaeth ddangos diddordeb ym mhroses Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cyngor Sir y Fflint.*



# NAWDD CYNALIADWY



## • Gwybodaeth a Chyngor

Rydym yn anelu at wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleodd i sicrhau nawdd ac adnoddau ac i ddatblygu gallu cyrff i sicrhau a chynyddu incwm.

## • Dysgu a Datblygiad

Rydym yn rhoi cymorth i wella sgiliau, gwybodaeth a gallu cyrff i godi arian a'i reoli yn effeithiol.

## • Codi proffil y Sector

Rydym yn cydnabod cyraeddiadau wrth godi arian, rhannu gwybodaeth, ymarfer da a chreu perthnasau gwell gyda noddwyr.

## • Mynediad at Wasanaethau a Budd-daliadau Ymarferol

Rydym yn darparu mynediad i fudd-daliadau a chymorth / cyngor ymarferol sydd yn berthnasol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

## • Mynediad at Nawdd

Rydym yn rhoi cymorth i gyrff gynyddu eu lefelau incwm, amrywio eu nawdd a dod yn ariannol gynaliadwy.

## Ein Dylanwad?

*Mae FLVC yn gweinyddu cynllun budd-daliadau Cist Gymunedol Sir y Fflint ar ran Cyngor Sir y Fflint. Mae'r budd-daliad hwn yn anelu at gefnogi mentrau unigol megis prosiectau cyfalaf bychan, digwyddiadau cymunedol, offer, cyhoeddusrwydd, marchnata, a chyrsiau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yn Sir y Fflint.*

*Cynrychiolwyd FLVC ar y paneli budd-daliad a phenderfynu canlynol-*

- Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr
- Cist Gymunedol Chwaraeon Sir y Fflint
- Deddf Eglwys Cymru Sir y Fflint
- Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
- Gwaddol Cymunedol Sir y Fflint
- Cronfa Gymunedol Burbo Bank
- Cadwyn Clwyd

*Hyfforddiant wrth fesur i gyrff bychan/canolig yn Sir y Fflint gan gynnwys cyflwyniad i Gist Gymunedol Sir y Fflint a Hel Arian yn Gymunedol.*

## Beth Wnaethom Ei Gyflawni?

- ✓ *Eleni bu i'r Swyddog Cyllid fynd i'r afael â 300 ymholiad gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol. Yn sgil hyn, bu modd i'r grwpiau fanteisio ar £1.6m o gyllid gan ystod eang o ffynonellau.*
- ✓ *Darparwyd 11 Diwrnod Gwybodaeth Nawdd.*
- ✓ *Bu modd i fudiadau siarad yn uniongyrchol gydag ariannwyr grant mewn sesiynau un i un ar y cyd gyda FLVC. Manteisiodd cyfanswm o 50 grŵp ar gymorth uniongyrchol gan Gronfa'r Loteri Trefnadaeth, Plant mewn Angen, Gwobrau'r Loteri Fawr i Gymru Gyfan, Gwynt y Môr ac ati. Mae FLVC hefyd yn gweinyddu cronfa Gist Gymunedol Sir y Fflint ar ran Cyngor Sir y Fflint lle bu 29 grant llwyddiannus am gyfanswm o £18,468.*

# YMRWYMIAD A DYLANWADU

- **Gwybodaeth Polisi a Chyngor**

Rydym yn darparu cefnogaeth sy'n galluogi ymrwymiad addas a dylanwad ar gyrff sector gyhoeddus perthnasol trwy ddysgu a datblygu perthynas cydfuddiannol.

- **Llais Trydydd Sector**

Trwy gael cynrychiolaeth ar strwythurau llywodraethu sector cyhoeddus, neu rwyddhad enwebiad ac ymrwymiad cynrychiolydd priodol o'r drydydd sector, dod a heriau, cynrychiolaeth ac atebolrwydd i strwythurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y sector gyhoeddus.



Prosiect Hwb Cymunedol Ardal Wledig Gogledd Sir y Fflint y Ganolfan Gyngori Ynni Gogledd Cymru



Achiediad Investing in Volunteers

## Beth Wnaethom Ei Gyflawni?

- ✓ *Cynnig Gwybodaeth Gyffredinol a Gwasanaethau Cefnogi i dros 1200 o unigolion o fewn grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.*
- ✓ *Mae ein e-fuletin lles Gogledd Ddwyrain Cymru yn cyrraedd dros 318 o unigolion pob wythnos.*
- ✓ *Tros 56,000 o ymweliadau i'n gwefan sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i grwpiau cymunedol a'n partneriaid.*
- ✓ *Fe wnaeth 72 o staff sector gyhoeddus fynychu ein diwrnodiau hyfforddi 'Gwneudy Gorau o'r Trydydd Sector'- a ddatblygwyd gan FLVC ar gyfer ei ddarparu ar draws Gogledd Cymru i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.*

**Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir y Fflint oddi mewn i flaenoriaethau 'Cymunedau Cryf' a 'Cael Sir y Fflint i Symud'.**

**Mae ein staff wedi cefnogi datblygiad yr Hwb Cymorth Cynnar newydd (ymateb rhyng asiantaethol i liniaru effaith Profiadau Plentyndod Gwrthwynebus) a gwaith yr awdurdod lleol gyda Modelau Darparu Amgen.**

Rydym yn cydweithio a Mantell Gwynedd (Cyngor Gwirfoddol Sirol Gwynedd) ac ein cydweithwyr CVC ar draws Gogledd Cymru i ddarparu hyfforddiant Gwerth Cymdeithasol i gyrff Trydydd Sector. Mae Prif Swyddog FLVC hefyd yn cyd-gadeirio Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol trwy Grŵp Cydweithiol Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru (NWSWIC).

Mae ein Tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol (bellach yn gyfrifol am Sir y Fflint a Wrecsam) yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid statudol a trydydd sector eraill ynglŷn â materion a blaenoriaethau allweddol megis:

- Darparu gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol i bractisau 4 Meddyg Teulu ar draws Wrecsam a Sir y Fflint i roi cyswllt i gleifion a chefnogaeth yn eu cymuned leol.
- Cyd-ddarparu gweithdai gyda BCUHP a phartneriaid eraill.
- Cefnogi cynnydd sylweddol yn y nifer o gydweithwyr Trydydd Sector a phartneriaid sector gyhoeddus sy'n mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Les Gogledd Ddwyrain Cymru a chynyddu pa mor aml mae'n cyfarfod o fod yn gwarterol i fod yn ddeufisol yn dilyn cais gan y Rhwydwaith.
- Cefnogi grwpiau i gael mynediad llwyddiannus at y Gronfa Gofal Canolradd.

**Mae staff FLVC yn cydweithio a WCVA yn datblygu cynnig ar y cyd ar gyfer materion diogelu.**

**Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru i godi ymwybyddiaeth o egwyddorion Cyd-gynhyrchu trwy ein gwaith ac yn ein Cynhadledd Trydydd Sector.**

**Rydym yn gweithio gyda'n corff cenedlaethol WCVA i ehangu'r cyfleoedd i Gefnogi Trydydd Sector Cymru ddarparu ffyrdd arloesol i ymateb i anghenion ein cymunedau.**

## Ein Dylanwad?

- *Yn arolwg Rhanddeiliaid FLVC yn 2016, nododd 81% o'r rhai wnaeth ymateb fod gennym agwedd gadarnhaol tuag at weithio mewn partneriaeth.*
- *Bu dros 100 o bobl yn ein Cynhadledd Trydydd Sector ym mis Tachwedd 2016 ac roedd yn cynnwys trafodaethau ar Werth Cymdeithasol ac Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, Gwneud y Gorau o'r Trydydd Sector (yn dilyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a Gwasanaethau Sir y Fflint yn Cysylltu.*





FLVC yn cydweithio gyda Theatr Clwyd



Cwrs Hyfforddi Achrededig NEW Mind a FLVC Step Up Step Out



Gareth McCormick yn derbyn Gwobr Gwirfoddoli Tom Jones i Bobl Ifanc



Helpu grwpiau lleol dderbyn Grantiau Cymunedol



Mae FLVC wedi datblygu Prosiect Cefnogaeth gyda Gwirfoddoli newydd gyda NAS Cymru



Step Up Step Out Cefnogaeth gyda Gwirfoddoli

# CYFRIFON FLVC 2016/17

## Datganiad o Weithgareddau Ariannol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth

	Cronfeydd heb eu cyfyngu £	Cronfeydd cyfyngedig £	2017 Cyfanswm cronfeydd £	2016 Cyfanswm cronfeydd £
<b>INCWM A GWADDOLION O</b>				
<b>Gweithgareddau elusennol</b>				
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	99,822	59,386	159,208	174,953
Llywodraeth Cymru	-	4,000	4,000	4,000
Cyngor Sir y Fflint	17,850	214,152	232,002	380,466
Cyrff Cyhoeddus Eraill	-	51,808	51,808	53,489
Gweithgareddau masnachu eraill	133,694	10,216	143,910	135,554
Incwm buddsoddi	<u>551</u>	<u>-</u>	<u>551</u>	<u>721</u>
<b>Cyfanswm</b>	<b>251,917</b>	<b>339,562</b>	<b>591,479</b>	<b>749,183</b>
<b>GWARIANT AR</b>				
<b>Codi arian</b>				
Gweithgareddau masnachu eraill	<u>1,271</u>	<u>-</u>	<u>1,271</u>	<u>761</u>
	1,271	-	1,271	761
<b>Gweithgareddau elusennol</b>				
Cyflogau a threuliau staff	131,439	226,779	358,218	416,834
Costau swyddfa	50,120	10,989	61,109	62,226
Treuliau a chostau	12,459	14,100	26,559	38,945
Gwirfoddolwyr a hyfforddiant	1,690	26,129	27,819	72,688
Costau adeilad	60,934	24,475	85,409	89,075
Dibrisiant	3,896	-	3,896	4,724
Tâl grant: GwirVol	-	4,035	4,035	3,973
Tâl grant: Iechyd a Lles	-	-	-	1,500
Tâl grant: Cronfa Gofal Canolradd	-	-	-	20,000
Tâl grant: Tîm o Amgylch y Teulu	-	-	-	6,088
Tâl grant: Cist Gymunedol	<u>-</u>	<u>18,468</u>	<u>18,468</u>	<u>31,650</u>
<b>Cyfanswm</b>	<b>261,809</b>	<b>324,975</b>	<b>586,784</b>	<b>748,464</b>
<b>INCWM NET/(GWARIANT)</b>	<b>(9,892)</b>	<b>14,587</b>	<b>4,695</b>	<b>719</b>
<b>CYMODI CRONFEYDD</b>				
<b>Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen</b>	<b>140,708</b>	<b>251,016</b>	<b>391,724</b>	<b>391,005</b>
<b>CYFANSWM Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN</b>	<b><u>130,816</u></b>	<b><u>265,603</u></b>	<b><u>396,419</u></b>	<b><u>391,724</u></b>

### GWETHREDOEDD SY'N PARHAU

Mae'r holl incwm a gwariant wedi codi o weithredoedd sy'n parhau.

Daw'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol hwn o gyfrifon ariannol archwiliedig y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr 31ain o Fawrth 2017